Awst 2018

This briefing is bilingual, click here for the English version.

Croeso i gylchlythyr Cymru Ifanc

Gwaith cyfranogi yw Cymru Ifanc wedi'i gynnal gan Blant yng Nghymru a'n sefydliadau partner, a chaiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.

Bydd Cymru Ifanc yn sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed am faterion sy'n bwysig iddynt hwy, a bod y materion hyn yn cael eu clywed gan Lywodraeth Cymru'n arbennig.

Fesul mis byddwn yn dod â'r newyddion diweddaraf i chi, yn cynnwys diweddariadau am y gwaith sy'n cael ei wneud gan fforymau a grwpiau eraill ledled Cymru.

Os hoffech gyfrannu unrhyw beth, e-bostiwch info@childreninwales.org.uk.

Contents

1. Pleidlaid Gwneud Eich Marc yn holi pobl ifanc am eu blaenoriaethau ar gyfer Senedd Ieuenctid y DU
2. Cadeirydd Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim Cymru yn lansio arolwg i gynnwys plant a phobl ifanc wrth ddylunion strategaeth newydd ar gyfer gwaith ieuenctid
3. Cyngor Hil Cymru yn cyhoeddi Rhestr o Ddigwyddiadau sydd wedi'u cynllunion ar gyfer Mis Hanes Pobl Dduon
4. Ymgrych Gorllewin Gwyllt yr NSPCC yn cynnal arolwg o'r risgiau mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu ar-lein
5. Ysgrifennyd y Cabinet dros Addysg yn Llongyfarch Myfyrwyr Cymru ar eu canlyniadau TGAU,

Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru

Pleidlais Gwneud Eich Marc yn holi pobl ifanc am eu blaenoriaethau ar gyfer Senedd Ieuenctid y DU

Mae pleidlais Gwneud Eich Marc / Make Your Mark ar gyfer trafodaeth flynyddol Senedd Ieuenctid y DU wedi cael ei lansio heddiw, 22 Awst 2018.

Gwneud Eich Marc yw'r ymgynghoriad mwyaf yn Ewrop â phobl ifanc. Mae'n rhoi'r cyfle i bobl ifanc 11-18 oed ym mhob rhan o'r DU gymryd rhan a lleisio'u barn drwy helpu i benderfynu beth ddylai aelodau Senedd Ieuenctid y DU ei drafod a phleidleisio amdano fel eu hymgyrch ar gyfer 2019.

Bydd Aelodau'r Senedd Ieuenctid, sydd rhwng 11 a 18 oed, yn cymryd rhan mewn trafodaeth flynyddol yn siambr Ty'r Cyffredin, dan gadeiryddiaeth Llefarydd Ty'r Cyffredin. Byddant yn trafod pum mater a ddewiswyd drwy bleidlais ymhlith pobl ifanc o bob rhan o'r DU, sef Gwneud Eich Marc, ac yna'n pleidleisio i benderfynu pa ddau fater i'w dewis fel prif ymgyrchoedd Senedd Ieuenctid y DU ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Caiff y papurau pleidleisio ar gyfer Gwneud Eich Marc eu dosbarthu drwy ysgolion, colegau, grwpiau ieuenctid a sefydliadau partner.

Am ragor o wybodaeth ynghylch Gwneud Eich Marc, ewch i: http://www.ukyouthparliament.org.uk/makeyourmark/.

Cadeirydd Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim Cymru yn lansio arolwg i gynnwys plant a phobl ifanc wrth ddylunio strategaeth newydd ar gyfer gwaith ieuenctid

Mae Keith Towler, Cadeirydd Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim Cymru, wedi cyhoeddi y bydd yn lansio arolwg Cymru gyfan ar gyflwr gwaith ieuenctid yng Nghymru.

Nod yr arolwg yw rhoi cyfle cynnar i bobl ifanc ddweud beth sy'n werthfawr iddyn nhw a beth maen nhw eisiau ei gael gan waith ieuenctid yng Nghymru.

Swyddogaeth Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim Cymru yw cynghori Llywodraeth Cymru ar greu, defnyddio, a chadw llygad ar gynllun gwaith ieuenctid. Bydd y cynllun yma'n helpu i sicrhau bod pobl ifanc yng Nghymru yn gallu defnyddio'r gwasanaethau gwaith ieuenctid y mae ganddyn nhw hawl i'w derbyn.

Mae'r Cadeirydd yn nodi ei bod hi'n bwysig i blant a phobl ifanc fod yn rhan o lunio'r cynllun newydd o'r cychwyn.

Mae'r Cadeirydd wedi paratoi dau ddatganiad, un i'r sector Gwaith Ieuenctid, y gallwch ei ddarllen yma, ac un i blant a phobl ifanc, y gallwch ei ddarllen yma.

Cyngor Hil Cymru yn cyhoeddi Rhestr o Ddigwyddiadau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer Mis Hanes Pobl Dduon

Mae Cyngor Hil Cymru wedi cyhoeddi'r rhaglen o ddigwyddiadau byddan nhw'n eu cynnal yn ystod Mis Hanes Pobl Dduon 2018.

Hon fydd ei 11eg flwyddyn, a thema Mis Hanes Pobl Dduon 2018 yw 'Eiconau'r Gymru Ddu'.

Bydd y rhaglen o ddigwyddiadau'n cychwyn ar 28 Medi 2018 adeg Lansio Swyddogol Mis Hanes Pobl Dduon a Gwobrau Ieuenctid Hanes Pobl Dduon Cymru Gyfan, yn Adeilad y Pierhead, Bae Caerdydd.

Yna bydd digwyddiadau'n cael eu cynnal ledled Cymru, yn y gogledd a'r de, nes bod y Diweddglo Ysblennydd yn digwydd ar 04 Tachwedd.

Mae Cyngor Hil Cymru yn cynnig pecynnau noddi a chyfle i logi stondin. I gael rhagor o wybodaeth a rhestr lawn o ddyddiadau a lleoliadau'r digwyddiadau, gweler yma.

I gael rhagor o wybodaeth neu i holi ynghylch nawdd neu stondinau, cysylltwch â laura@racecouncilcymru.org.uk

---

Ymgyrch Gorllewin Gwyllt yr NSPCC yn cynnal arolwg o'r risgiau mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu ar-lein

Mae ymgyrch diogelwch ar-lein yr NSPCC, sy'n galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i reoleiddio rhwydweithiau cymdeithasol, wedi cynhyrchu gwaith ymchwil ar y risgiau mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu.

Bu'r arolwg yn holi bron 40,000 o blant 7-16 oed ar draws y Deyrnas Unedig am eu gweithgareddau ar-lein.

Canfu'r NSPCC fod llun o oedolyn noeth neu hanner noeth wedi cael ei anfon neu ei ddangos i 1 o bob 25 plentyn oed cynradd, ar gyfartaledd. Roedd hyn yn codi i 1 o bob 20 ymhlith y plant oed uwchradd.

Roedd llun noeth neu hanner noeth wedi'i anfon at 1 o bob 20 plentyn oed cynradd gan berson ifanc arall.

Mae'r NSPCC yn pryderu am raddfa ac effaith pobl yn rhannu delweddau rhy bersonol ohonynt eu hunain ar-lein ac yn galw ar y llywodraeth i reoleiddio safleoedd rhwydweithio cymdeithasol.

Gallwch ddarllen mwy am yr arolwg a'r ymgyrch yma.

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn Llongyfarch Myfyrwyr Cymru ar eu canlyniadau TGAU, Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams AC, wedi llongyfarch y disgyblion a gafodd eu canlyniadau TGAU, Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru ym mis Awst.

Mae nifer y disgyblion a gafodd raddau A*-A wedi codi o 17.9% y llynedd i 18.5% eleni. Gwelwyd y nifer uchaf o ddisgyblion yn cael graddau A* mewn Safon Uwch ers 2010, sef 8.7%.

Ar ddiwrnod y canlyniadau Safon Uwch, yn siarad yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

"Heddiw yw penllanw llawer o waith caled gan ein myfyrwyr, ac rwyf am eu llongyfarch nhw, yn ogystal â'n hathrawon a'n darlithwyr gwych, ar y canlyniadau hyn.

"Rydyn ni'n gweld set gadarnhaol a sefydlog iawn o ganlyniadau, gyda rhai arwyddion calonogol o gynnydd wrth i ni barhau ar ein taith i ddiwygio addysg."

I ddarllen mwy gan Ysgrifennydd y Cabinet am ganlyniadau Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru, gweler yma. Mae rhagor am y canlyniadau TGAU i'w weld yma.

Cymru Ifanc
Young Wales

August 2018

Welcome to the Young Wales newsletter

Young Wales is the participation work that is being run by Children in Wales and our partner organisations, and is funded by the Welsh Government.

Young Wales will ensure that children and young people are heard on issues that are important to them, and in particular that these issues are heard by the Welsh Government.

Each month we will bring you the latest news, including updates on the work that is being done by forums and other groups across Wales.

If you have anything you'd like to contribute, please email info@childreninwales.org.uk.

Contents

1. Make Your Mark ballot asks young people about their priorities for the UK Youth Parliament
2. Chair of the Interim Youth Work Board for Wales launches survey to include children and young

people in design of new youth work strategy
3. Race Council Cymru Announces Roster of Events Planned for Black History Month
4. NSPCC Wild West Campaign surveys risks children and young people face online
5. Cabinet Secretary for Education Congratulates GCSE, A-Level and Welsh Baccalaureate students in Wales

---

Make your Mark ballot asks young people about their priorities for the UK Youth Parliament

The Make Your Mark ballot for the UK Youth Parliament's annual debate has been launched today, 22 August 2018.

Make Your Mark is the largest consultation of young people in Europe. It gives young people aged 11-18 across the UK the chance to get involved and have their voices heard by helping to decide what Members of the UK Youth Parliament should debate and vote on to be their campaign for in 2019.

Members of Youth Parliament aged 11-18 take part in an annual debate in the House of Commons chamber, chaired by the Speaker of the House of Commons. They debate five issues chosen by the Make Your Mark ballot of young people from across the UK, and then vote to decide which two issues should become the UK Youth Parliament's priority campaigns for the year ahead.

Ballot papers for Make Your Mark are issued through schools, colleges, youth groups, along with partner organisations.

For more information about the Make Your Mark ballot, please visit http://www.ukyouthparliament.org.uk/makeyourmark/.

Chair of the Interim Youth Work Board for Wales launches survey to include children and young people in design of new youth work strategy

Keith Towler, Chair of the Interim Youth Work Board for Wales has announced that he will launch a Wales wide survey on the state of youth work in Wales.

The aim of the survey is to give young people an early chance to say what they value and what they want from youth work in Wales.

The job of the Interim Youth Work Board for Wales is to advise Welsh Government on making, using, and watching over a youth work plan. This plan will help make sure that young people in Wales can use the youth work services they are entitled to.

The Chair notes that it is important that children and young people are a part of designing the new plan from the start.

The Chair has written two statements, one for the Youth Work sector, which you can read here, and one for children and young people, which you can read here.

Race Council Cymru Announces Roster of Events planned for Black History Month

Race Council Cymru have announced the programme of events they are holding during Black History Month 2018.

In its 11th year running, the theme for Black History Month 2018 is 'Icons of Black Wales'.

The programme of events opens on 28 September 2018 at the Official Black History Month Launch and All Wales Black History Youth Awards, in the Pierhead Building in Cardiff Bay.

The All Wales Black History Youth Awards provide an excellent opportunity to recognise the achievements of young people from Black and Minority Ethnic communities in Wales. There's more information on the awards, and how to nominate a young person here.

There are then events across Wales, north and south until the Grand Finale on the 04 November.

Race Council Cymru are offering sponsorship packages and stall hire. For more information and a full list of dates and venues for the events, please see here.

For more information or to enquire about sponsorships or stalls, please contact laura@racecouncilcymru.org.uk

---

NSPCC Wild West Campaign surveys risks children and young people face online

The NSPCC online safety campaign calling on the UK Government to regulate social networks has produced research into the risks faced by children and young people.

Surveying nearly 40,000 children across the UK, aged 7 to 16, the survey asked about activity online.

NSPCC found that on average 1 in 25 primary school children had been sent or shown a naked or semi-naked image by an adult. This was one in 20 among secondary school children.

1 in 20 primary school children had been sent a naked or semi-naked image by another young person.

The NSPCC, concerned about the scale and impact of sharing intimate images of themselves online and are calling for the government to regulate social network sites.

You can read more about the survey and the campaign here.

Cabinet Secretary for Education Congratulates GCSE, A-

Level and Welsh Baccalaureate students in Wales

The Cabinet Secretary for Education, Kirsty Williams AM, has congratulated pupils receiving their GCSE, A-Level and Welsh Baccalaureate results this August.

The number of pupils getting A*-A grades has increased from 17.9% last year to 18.5% this year. The number of pupils getting A* results at A-Level is the best since 2010, at 8.7%.

Speaking at Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, on the day of the A-Level results, the Cabinet Secretary said:

"Today is the culmination of a lot of hard work from our students and I want to congratulate them, as well as our fantastic teachers and lecturers, on these results.

"We're seeing a very positive and stable set of results, with some very encouraging signs of progress as we continue on our journey of education reform."

To read more from the Cabinet Secretary on the A-Level and Welsh Baccalaureate results, please see here. More on the GCSE results can be found here.

Young Wales - Cymru Ifanc | info@childreninwales.org.uk | 029 2034 2434 |

Dewiswch yr wybodaeth rydych yn dymuno ei derbyn

I newid eich dewisiadau ac i ddweud wrthym ni pa negeseuon e-bost rydych yn dymuno eu derbyn, cliciwch **'Diweddaru Proffil'** isod.

I atal pob e-bost oddi wrth Plant yng Nghymru, cliciwch '**Datdanysgrifio**'.

Byddwch yn Ymwybodol: Os **cliciwch Datdanysgrifio**, byddwch yn datdanysgrifio o holl wybodaeth a negeseuon e-bost marchnata Plant yng Nghymru.

Choose the information you want to receive

To change your preferences and tell us which emails you want to receive, click **'Update Profile'** below.

To stop all e-mails from Children in Wales, click '**Unsubscribe**'.

Please, Be Aware: If you **click unsubscribe**, you will be unsubscribing from all Children in Wales information and marketing emails.